Rhagoriaeth i bawb ~ Excellence for all

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

**Adroddiad ar**

**Cylch Meithrin Twtil**
**Ysgol Santes Helen**
**Caernafon**
**Gwynedd**
**LL55 1PF**

**Dyddiad yr arolygiad: Chwefror 2013**

**gan**

**Wil Williams**

**ar ran**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:
**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**
**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**
**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol y lleoliad a'i ragolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

| **Barn** | **Yr hyn mae'r farn yn ei olygu** |
|---|---|
| **Rhagorol** | Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Mae cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella |
| **Anfoddhaol** | Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau |

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.gov.uk

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.gov.uk

**Ⓗ Argraffydd y Frenhines a Rheolwr Llyfrfa Ei Mawrhydi 2013: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod hawlfraint y deunydd rhagddywededig a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

**Dyddiad cyhoeddi: 27/02/2013**

## Cyd-destun

Mae Cylch Meithrin Twtil yn darparu addysg cyn-ysgol cyfrwng Cymraeg i dref Caernarfon a'r ardal wledig o'i chwmpas.  Mae'r lleoliad yn cyfarfod yn hen neuadd yr eglwys sydd ar bwys Ysgol Gatholig Santes Helen.  Ym marn y lleoliad, nid yw'r ardal a wasanaethir ganddo yn un ffyniannus nac ychwaith o dan anfantais economaidd a chymdeithasol.

Caiff plant o bob gallu a chefndir eu derbyn i'r lleoliad.  Yn ystod yr arolygiad, nid oedd yr un plentyn ag anghenion dysgu ychwanegol nac o dras ethnig yn mynychu'r lleoliad.

Darperir sesiynau o ddwy awr a hanner am bedwar prynhawn yr wythnos ar gyfer plant dyflwydd i bedair oed, er bod y nifer o sesiynau a fynychir gan unigolion yn amrywio yn ôl dymuniad rheini.  Ar hyn o bryd, mae un deg chwech o blant wedi'u cofrestru yn y lleoliad, gydag un ohonynt yn cael ei ariannu gan yr awdurdod lleol.

Cymraeg yw prif gyfrwng addysgu a dysgu'r lleoliad a Chymraeg yw'r iaith a siaredir gartref gan oddeutu hanner y plant.  Nid oes yr un plentyn yn dysgu Saesneg fel iaith ychwanegol.

Mae'r ddwy ymarferydd sy'n cefnogi addysg y plant gyda chymwysterau priodol ar gyfer addysgu'r blynyddoedd cynnar.

Wedi iddynt orffen eu cyfnod yn y lleoliad, bydd bron pob plentyn yn parhau gyda'u haddysg yn Ysgol Gatholig Santes Helen.

Arolygwyd y lleoliad ddiwethaf gan yr Arolygaeth Gofal a Gwasanaeth Cymdeithasol Cymru yng Ngorffennaf 2011. Hwn yw ei arolygiad cyntaf gan Estyn.

## Crynodeb

| | |
|---|---|
| **Perfformiad presennol y lleoliad** | **Da** |
| **Rhagolygon gwella'r lleoliad** | **Da** |

**Perfformiad presennol**

Mae perfformiad cyfredol y lleoliad yn dda oherwydd:

- bod profiadau dysgu yn bodloni anghenion yr holl ystod o blant yn llawn ac yn eu hannog i ddysgu'n effeithiol a gwneud cynnydd da;
- caiff plant gyfleoedd gwerthfawr i ddatblygu eu medrau llythrennedd a rhifedd ar draws pob maes dysgu;
- bod addysgu da yn darparu cyfleoedd gwerthfawr i blant gymryd rhan weithredol yn eu dysgu;
- y defnydd effeithiol a wneir o ddeilliannau asesu i gynllunio gweithgareddau ar gyfer y dyfodol;
- bod plant yn teimlo'n hapus a diogel yn y lleoliad ac yn barod i ofyn am gymorth ac arweiniad; a bod
- cyflenwad helaeth o adnoddau o ansawdd da yn y chwe maes dysgu.

**Rhagolygon gwella**

Mae rhagolygon gwella yn dda oherwydd bod:

- yr arweinyddiaeth yn rhoi synnwyr cryf o gyfeiriad i waith y lleoliad;
- ymarferwyr yn adnabod y lleoliad yn dda ac yn hunan-arfarnu'n barhaus;
- y lleoliad yn datblygu'n dda fel cymuned ddysgu gref;
- ansawdd y ddarpariaeth yn dda ac yn gwella'n barhaus;
- ystod eang o weithgareddau partneriaeth yn cyfrannu'n gryf at gyflawniadau a lles plant; a'r
- lleoliad yn rhoi gwerth da am arian.

## Argymhellion

A1 Adolygu effaith y cynllun gweithredu ar gynnydd plant ac ar ansawdd y ddarpariaeth.

A2 Darparu mwy o wybodaeth i rieni newydd am feysydd dysgu'r Cyfnod Sylfaen.

A3 Creu ardal ddysgu y tu allan i'r ystafell dosbarth

**Beth sy'n digwydd nesaf?**
Bydd y lleoliad yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion.

## Prif ganfyddiadau

| Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau? | |
|---|---|

Nid oes unrhyw adroddiad ar gynnydd plant, safonau yn natblygiad eu medrau, yr iaith Gymraeg a lles. Mae hyn oherwydd nad oedd digon o blant perthnasol adeg yr arolygiad i adrodd arnynt heb nodi plant unigol.

| Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth? | Da |
|---|---|

**Profiadau dysgu: Da**

Mae profiadau dysgu yn bodloni anghenion a diddordebau'r holl ystod o blant yn llawn. Mae'r cwricwlwm yn eu hannog i ddysgu'n effeithiol a gwneud cynnydd da ar draws pob maes dysgu. Seilir y dysgu ar gynlluniau cwricwlaidd pwrpasol sy'n adlewyrchu egwyddorion y Cyfnod Sylfaen yn gryf ac yn adeiladu'n systematig ar wybodaeth, dealltwriaeth a medrau presennol plant. Mae'r ymarferwyr yn defnyddio'r amgylchedd dan do a'r amgylchedd awyr agored, megis y parc lleol, yn ddychmygus i annog plant i arbrofi â phrofiadau newydd a datblygu eu medrau yn effeithiol. Mae'r anogaeth gaiff plant i wneud dewisiadau personol ac i ddilyn trywyddion dysgu eu hunain, yn cyfrannu'n dda tuag at eu datblygiad fel dysgwyr annibynnol. Bydd plant yn ymweld â mannau megis archfarchnad, yn gymuned leol yn rheolaidd ac yn dysgu llawer oddi wrth ymwelwyr â'r lleoliad.

Trwy amrediad eang o weithgareddau megis chwarae rôl a gwrando ar storïau, caiff plant gyfleoedd gwerthfawr i ddatblygu eu medrau llythrennedd ar draws chwe maes dysgu'r Cyfnod Sylfaen. Mae'r cyfleoedd cyson gaiff plant i wrando ar storïau diddorol yn llyfrgell y dref ac i greu marciau gyda gwahanol gyfryngau, yn gosod seiliau cadarn ar gyfer datblygu eu medrau darllen ac ysgrifennu. Trwy gemau cyfrif, gwaith ymarferol a rhigymau rhif, daw'r rhan fwyaf o'r plant i ddysgu'n fuan sut i gyfrif yn annibynnol. Gwneir defnydd effeithiol o deganau electronig a gemau cyfrifiadurol ar gyfer datblygu medrau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu.

Mae'r amrediad eang o brofiadau dysgu penagored a ddarperir yn yr ardaloedd dysgu yn hyrwyddo medrau meddwl a medrau datrys problemau plant yn effeithiol iawn.

Caiff plant rôl weithredol yng ngweithgareddau'r lleoliad ar gyfer ailgylchu deunyddiau ac arbed ynni. Mae'r lleoliad yn hyrwyddo diwylliant, gwyliau a thraddodiadau Cymru yn llwyddiannus ac yn rhoi cyfleoedd da i blant ddysgu am eu rôl fel dinasyddion byd-eang.

**Addysgu: Da**

Mae gan yr arweinydd ddealltwriaeth gadarn o egwyddorion y Cyfnod Sylfaen a, thrwy gyd-gynllunio gyda'r ymarferwyr eraill, llwydda i ddarparu ystod eang o brofiadau dysgu diddorol a chyffrous. Er bod cynlluniau trwyadl ar gyfer pob sesiwn, yn aml cânt eu haddasu yn fyrfyfyr er mwyn dilyn syniadau ac awgrymiadau'r plant. Mae'r hyblygrwydd hwn yn nodwedd gref o'r addysgu ac yn darparu cyfleoedd gwerthfawr i blant gymryd rhan weithredol yn eu dysgu. Yn ystod sesiynau, cedwir cydbwysedd priodol rhwng gweithgareddau sy'n cael eu dewis gan y plant a'r rhai hynny sy'n cael eu harwain gan oedolion.

Wrth gydweithio gyda phlant ar dasg benodol, mae ymyrraeth amserol ymarferwyr a'u cwestiynu meddylgar, yn aml yn herio syniadau'r plant ac yn gwella eu dealltwriaeth.

Mae ymarferwyr gan fwyaf, yn fodelau iaith da eu hunain ac yn annog plant i ddefnyddio'r Gymraeg gymaint ag sy'n bosibl. Maent yn gwrando ar lais y plentyn ac yn disgwyl llawer gan bob un ohonynt.

Caiff plant eu hasesu'n rheolaidd ac yn gynhwysfawr gydag ymarferwyr yn cofnodi eu harsylwadau ac asesiadau'n ofalus i fesur cynnydd plant. Mae'r datblygiad diweddar o ddefnyddio deilliannau asesu i gynllunio gweithgareddau ar gyfer y dyfodol, wedi galluogi'r lleoliad i ymateb yn fwy pwrpasol i anghenion penodol plant unigol. Mae trefniadau trylwyr ar gyfer cynnwys rhieni yn asesiadau eu plant. Mae'r rhain yn sicrhau bod ganddynt wybodaeth dda am gynnydd eu plant a'r hyn y gallant hwy ei wneud i'w helpu i wella.

**Gofal, cymorth ac arweiniad: Da**

Mae polisïau a threfniadau effeithiol yn y lleoliad ar gyfer hyrwyddo byw'n iach a lles plant. Caiff plant eu hannog i fwyta'n iach yn ystod byrbrydau, i ofalu am eu hylendid personol ac i gymryd rhan mewn gweithgareddau corfforol. Mae'r profiadau dysgu yn hyrwyddo datblygiad personol, gan gynnwys datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol, yn dda. Yn ystod eu hymwneud dyddiol â phlant, mae ymarferwyr yn pwysleisio'n gryf yr angen i bawb fod yn garedig tuag at ei gilydd, i fod yn onest a theg ac i ymddwyn mewn ffordd gyfrifol. Mae hyn yn gymorth mawr i'r plant ddysgu gwahaniaethu rhwng yr hyn sy'n iawn a'r hyn sydd ddim yn iawn. Mae'r cyfleoedd rheolaidd i blant trwy 'Helpwr heddiw' i ymgymryd â chyfrifoldebau ac i wneud dewisiadau eu hunain ynghylch eu dysgu yn cyfrannu'n arwyddocaol tuag at eu datblygiad personol a chymdeithasol.

Mae plant yn teimlo'n hapus a ddiogel yng nghwmni oedolion yn y lleoliad ac maent yn barod i ofyn am gymorth ac arweiniad. Mae'r ymarferwyr yn gwybod sut i ymateb yn briodol i unrhyw heriau mewn perthynas ag ymddygiad gwael a diogelu. Mae trefniadau'r lleoliad ar gyfer diogelu plant yn bodloni gofynion ac nid ydynt yn destun pryder.

Mae trefniadau sefydlu da sy'n sicrhau bod plant yn ymgynefino'n gyflym yn y lleoliad. Nodir anghenion dysgu plant yn fuan pan fyddant yn ymuno â'r lleoliad a sicrheir bod yr anghenion hyn yn cael eu diwallu. Pan gyfyd achosion penodol, mae'r ymarferwyr yn rhagweithiol wrth ofyn am gymorth gan asiantaethau arbenigol.

**Yr amgylchedd dysgu: Da**

Mae'r lleoliad yn gymuned gynhwysol lle caiff pob plentyn hawl cyfartal i holl feysydd y cwricwlwm. Mae'r pwyslais cryf a roddir ar gydnabod, parchu a dathlu amrywiaeth yn hyrwyddo gwerthoedd megis caredigrwydd a goddefgarwch ac yn arwain at ddysgu effeithiol. Mae gan y lleoliad ddigon o ymarferwyr, sy'n meddu ar wybodaeth ac arbenigedd digonol i addysgu pob agwedd ar gwricwlwm y Cyfnod Sylfaen. Llwydda'r holl ymarferwyr i greu amgylchedd dysgu ysgogol sy'n galluogi pob plentyn i fanteisio'n llawn ar brofiadau dysgu a datblygu gwerthoedd ac agweddau cadarnhaol.

Ceir cyflenwad da o adnoddau o ansawdd da yn y chwe maes dysgu, sy'n cael eu gweddu'n ofalus i anghenion dysgu pob plentyn. Caiff adnoddau yn y gymuned ac yn yr ysgol gyfagos eu defnyddio'n arbennig o dda i gyfoethogi profiadau dysgu plant. Mae'r adeilad a'r ystafelloedd o ansawdd da ac yn cael eu defnyddio'n helaeth i ddarparu amgylchedd ddysgu ddymunol. Mae'r arweinydd wedi adnabod llecyn bychan y tu allan i'r ystafell ddosbarth y mae'n bwriadu ei ddatblygu fel ardal ddysgu ond, ar hyn o bryd, ni ddechreuwyd ar y gwaith.

| **Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?** | **Da** |
| --- | --- |

**Arweinyddiaeth: Da**

Mae gan yr arweinydd nodau clir, amcanion pendant a pholisïau priodol sy'n canolbwyntio ar gyflwyno profiadau dysgu sy'n bodloni anghenion plant. Caiff pob sesiwn ei gynllunio a'i drefnu'n ofalus a gwneir y defnydd gorau posib o amser pob ymarferydd. Canlyniad hyn yw bod synnwyr clir o ddiben yn treiddio drwy holl waith y lleoliad a bod pwyslais cryf ar gynnal a hyrwyddo gwelliannau. Mae'r arweinydd yn cyfleu disgwyliadau uchel ar gyfer sicrhau gwelliant ac yn cefnogi a herio pob ymarferydd mewn ffordd gadarnhaol ac effeithiol. Mae'r ymarferwyr yn rhannu'r un gwerthoedd ynghylch dysgu, addysgu ac ymddygiad. Gwna'r staff cyfan yn siŵr bod y Cyfnod Sylfaen, ynghyd â blaenoriaethau lleol a chenedlaethol eraill, megis asesu ar gyfer dysgu, yn cael eu cyflwyno'n llwyddiannus.

Mae'r berthynas gyda phlant, rhieni a'r pwyllgor rheoli yn gadarnhaol ac yn cyfrannu'n sylweddol at ymdeimlad o gymuned. Mae gan aelodau'r pwyllgor rheoli ddealltwriaeth addas o'r rhan fwyaf o'u cyfrifoldebau. Mae'r person cofrestredig a'r arweinydd yn cyflawni eu rôl rheoli a gwerthuso perfformiad staff yn effeithiol. Mae ansawdd y ddarpariaeth yn dda ac yn gwella'n gryf.

**Gwella ansawdd: Da**

Mae'r ymarferwyr yn adnabod y lleoliad yn dda a chydag anogaeth yr arweinydd, yn hunan-arfarnu yn baehaus ac yn archwilio ffyrdd i wella. Mae trefniadau cadarn wedi'u sefydlu ar gyfer cynnal arfer dda a rhoi newid ar waith mewn meysydd sydd angen gwelliant. Mae hunan-arfarniad yn rhoi ystyriaeth ofalus i farn rhieni ac yn manteisio'n sylweddol ar gyngor proffesiynol athrawes gefnogol yr awdurdod lleol. Gall ymarferwyr ddangos sut maent, trwy hunan-arfarnu, wedi gwella'r ddarpariaeth a chodi safonau cyflawniad a lles plant.

Mae adroddiad hunan-arfarnu'r lleoliad o ansawdd da. Gwnaeth y lleoliad ddefnydd effeithiol iawn o'r wybodaeth ar gyfer llunio cynllun gweithredu a rhoi strategaethau ar gyfer gwella ar waith. Fodd bynnag, nid oes trefniadau digon clir ar gyfer arfarnu beth fu effaith gweithredu blaenoriaethau'r cynllun ar gynnydd plant ac ar ansawdd y ddarpariaeth.

Mae ymarferwyr yn cael cefnogaeth gref gan raglen datblygiad proffesiynol parhaus a ddarperir yn bennaf gan yr awdurdod lleol a'r Mudiad Meithrin. Mae hyn wedi'u galluogi i gaffael gwybodaeth a medrau newydd ac i gyflwyno'r Cyfnod Sylfaen yn llwyddiannus. Mae'r sesiynau hyfforddi hefyd yn rhoi cyfleoedd gwerthfawr i staff rannu eu harfer gydag ymarferwyr o leoliadau eraill.

Mae'r lleoliad yn datblygu’n dda fel cymuned ddysgu gref.  Mae'r ymarferwyr yn agored iawn i syniadau newydd ac maent yn barod i roi cynnig ar wahanol ffyrdd o weithio a rhannu gwybodaeth a syniadau ymhlith ei gilydd.

**Gweithio mewn partneriaeth:  Da**

Mae ystod eang o weithgareddau partneriaeth yn cyfrannu'n gryf at gyflawniadau a lles plant. Mae gan y lleoliad gysylltiadau clos gydag Ysgol Gatholig Santes Helen ac mae trefn glir ar gyfer trosglwyddo gwybodaeth asesu a rhannu arferion da.  Mae'r cydweithio agos rhwng y lleoliad ac athrawes gefnogol yr awdurdod lleol yn cyfrannu'n gadarnhaol iawn at wella ansawdd y ddarpariaeth a safonau.

Caiff y rheini eu hysbysu'n rheolaidd am waith y lleoliad ac mae'r ymarferwyr yn cymryd camau i'w cynnwys yn yr holl weithgareddau a drefnir.  Er hynny, mae’r pecyn gwybodaeth a gânt ar fynediad eu plant i’r lleoliad yn brin o wybodaeth am feysydd dysgu’r Cyfnod Sylfaen ac nid oes cyngor iddynt ynghylch sut y gallant helpu eu plant.

Mae'r ymarferwyr yn gweithio gyda'i gilydd yn effeithiol, yn rhannu gwybodaeth am blant ac yn gwybod gyda phwy i gysylltu a phryd os bydd angen cymorth ychwanegol ar blant.  Mae'r cydweithio clos gyda'r gymuned yn cyfoethogi gwybodaeth a phrofiadau dysgu'r plant yn sylweddol.

**Rheoli adnoddau:  Da**

Mae'r lleoliad wedi'i staffio'n briodol i addysgu cwricwlwm y Cyfnod Sylfaen. Defnyddir y staff yn effeithiol i wneud y defnydd gorau posib o'u hamser, eu harbenigedd a'u profiad.  Mae gan yr arweinydd a thrysorydd y pwyllgor rheoli ddealltwriaeth fanwl o'u cyllideb ac maent yn blaenoriaethu gwariant yn unol ag anghenion datblygu'r lleoliad.  Caiff penderfyniadau gwariant eu harfarnu'n hynod o ofalus gan yr arweinydd i wneud yn siŵr eu bod yn cael effaith gadarnhaol ar safonau, cynnydd a lles plant.

Mae'r lleoliad yn rhoi gwerth da am arian.

## Atodiad 1

**Adroddiad boddhad rhanddeiliaid**

**Ymatebion i'r holiadur i rieni**

Nid oes sylwebaeth ar yr holiaduron i rieni gan mai nifer bychan yn unig o ymatebion a gafwyd.

**Ymateb i drafodaethau gyda phlant**
Mae'r plant yn dweud eu bod yn hapus yn y lleoliad a'u bod yn hyderus i droi at unrhyw oedolyn i ofyn am gyngor neu arweiniad.

## Atodiad 2

**Yr arolygydd cofnodol**

| | |
|---|---|
| Mr Wil Williams | Arolygydd Cofnodol |

**Copïau o'r adroddiad**

**Copïau o'r adroddiad**

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael yn y lleoliad ac oddi ar wefan Estyn (www.estyn.gov.uk)

## Rhestr termau

| | |
|---|---|
| **AGGCC** | Mae Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC) yn isadran o'r Adran Gwasanaethau Cyhoeddus a Pherfformiad yn Llywodraeth Cymru. |
| **Athro ymgynghorol awdurdod lleol** | Mae'r athrawon hyn yn darparu cymorth, arweiniad a hyfforddiant cyson i leoliadau nas cynhelir sy'n darparu addysg i blant tair a phedair oed. |
| **Y Cyfnod Sylfaen** | Menter gan Llywodraeth Cymru sy'n anelu at ddarparu cwricwlwm cytbwys ac amrywiol i ddiwallu anghenion datblygiadol gwahanol plant ifanc 3 i 7 mlwydd oed |
| **Cymdeithas Darparwyr Cyn Ysgol Cymru (WPPA)** | Cymdeithas wirfoddol annibynnol sy'n darparu gofal plant ac addysg cyn ysgol yn y gymuned. |
| **Cymdeithas Genedlaethol Meithrinfeydd Dydd (NDNA)** | Mae'r gymdeithas hon yn anelu at wella datblygiad ac addysg plant yn eu blynyddoedd cynnar, trwy ddarparu gwasanaethau cymorth i aelodau. |
| **Y Gymdeithas Gwarchod Plant Genedlaethol (NCMA)** | Mae hon yn gymdeithas ag aelodaeth broffesiynol sy'n gweithio gyda gwarchodwyr plant cofrestredig i sicrhau gofal plant, chwarae, dysgu a chymorth teulu o ansawdd uchel yn lleol yn y cartref. |
| **Meysydd Dysgu** | Y rhain yw saith maes cwricwlwm y Cyfnod Sylfaen mewn lleoliadau cyfrwng Saesneg. (Nid yw'n ofynnol i leoliadau cyfrwng Cymraeg addysgu datblygu'r Gymraeg am mai dyma yw iaith y lleoliad yn barod.) Mae'r Meysydd Dysgu fel a ganlyn:<br>• datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol<br>• medrau iaith, llythrennedd a chyfathrebu<br>• datblygiad mathemategol<br>• datblygu'r Gymraeg<br>• gwybodaeth a dealltwriaeth o'r byd<br>• datblygiad corfforol<br>• datblygiad creadigol |
| **Partneriaeth Datblygu'r Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant (PDBCGP)** | Mae'r bartneriaeth awdurdod lleol hon yn cymeradwyo lleoliadau fel darparwyr addysg. Mae ganddi'r grym hefyd i dynnu cyllid yn ôl o leoliadau nad ydynt yn cydymffurfio ag amodau cofrestru'r bartneriaeth. |
| **Proffil asesu datblygiad plant y Cyfnod Sylfaen (PADP)** | Proffil asesu wrth fynd i mewn i'r Cyfnod Sylfaen; gofyniad statudol mewn ysgolion o Fedi 2011 ac mewn lleoliadau o Fedi 2012. |

| | |
|---|---|
| **Mudiad Meithrin** | Mudiad gwirfoddol, sy’n anelu at roi’r cyfle i bob plentyn ifanc yng Nghymru i elwa o wasanaethau a phrofiadau’r blynyddoedd cynnar trwy gyfrwng y Gymraeg. |